y Gaer

Amgueddfa, Oriel Gelf & Llyfrgell
Museum, Art Gallery & Library




# y Gaer
# EDUCATION SERVICE

Powys

CRONFA DREFTADAETH
HERITAGE FUND

**y Gaer** is an exciting and inspirational development bringing together the refurbished Museum and Art Gallery and a new 21st century town library. The Museum is located within the Grade II* listed former Brecknock Shire Hall, and presents a restored Assize Courtroom, a Victorian classroom, craft gallery, an art gallery and a temporary exhibition space. There are also two social history galleries, which are full of the history of Brecknockshire. The new Library includes a dedicated children's library area and a Creative Learning Room, which doubles up as our school pack lunch area.



Whether you are planning a class visit to y Gaer or for the Education Officer to visit your school, we aim to link our facilitated sessions to the National Curriculum for Wales and, where appropriate and possible, to the history of the local area. The workshops are delivered in a variety of ways and include 'hands-on' activities, which encourage children to think and find out for themselves. Sessions are available throughout the year and are based on the resources and artefacts at y Gaer. If there is a particular topic we have not covered, please ask, as it may be possible for us to accommodate your requirements. All sessions are tailored for a half-day and can be adapted for pupils from Foundation Phase to Key Stage 4.

We also offer additional workshops linked to temporary exhibitions, festivals and other events in Brecon; these are run in partnership with other organisations, sometimes at external venues, and are advertised separately.

# Education Workshops

## The Victorians & 19th Century Life

There is a class set of Victorian costumes for children to wear for any of the sessions listed.

## Victorian Washdays

This is a very popular workshop where pupils will have first-hand experience of handling real and replica artefacts such as a dolly tub and scrubbing boards. Also suitable for work on water or homes in the past.

## Victorian Toys and Games

A fun workshop of learning how toys have changed over time. Pupils will have the opportunity to make some toys of their own and play Victorian parlour games.


## Victorian Homes

Using a handling collection of real and replica household items pupils will have the opportunity to see how Victorian housekeeping was managed without the aid of electricity. A practical rag rugging workshop is also available.

## Victorian Schooldays

Pupils will have the opportunity to re-enact a 19th century school day in our Victorian School room. Copperplate writing and experiencing pupil punishments from a strict Victorian teacher are all part of the educational role-play fun.





## 19th Century Transport

This workshop allows pupils to find out about 19th Century transport by road, rail and water, and how it compares to today's transport systems.

## Victorian Seaside

This session uses a handling collection of real Victorian Seaside artefacts and allows children the opportunity to write a Victorian style Postcard, make a hand puppet and experience a 'Punch and Judy' theatre.

## 19th Century Law and Order

Pupils will learn about Brecon's original Assize Court, which is housed within y Gaer. The Courtroom has been restored to its original grandeur, and pupils can explore its holding cells and re-enact real local Victorian crime cases. 19th century law and order artefacts can also be investigated.

## 19th Century Welsh Agriculture

Pupils will have the opportunity to see how 19th century Welsh agriculture has evolved to the mechanical farming industry of today. Our Brycheiniog Gallery displays an array of farming artefacts from butter pats to hand-fed winnowing equipment. The story of the 'Epynt Lost Villages' can also be taught.

## The Story of Tommy Jones

With the use of a locally made film and original photographs, the story is told of the little boy Tommy Jones, who went missing in the Brecon Beacons on August 4th, 1900. Pupils can see artefacts from the time in our Brycheiniog Gallery. This is an effective debate workshop - What did really happen to Tommy?

## Celts Workshop

Using replica artefacts and a time travel story, children can have an overview of Celtic life. Follow up activities include clay pot making and basket weaving.

## The Romans

Pupils will have the opportunity to learn how we find out about the past by looking at what people leave behind. Roman artefacts and a replica handling collection are used to explore life in Roman times, including Life as a Roman Soldier and Roman Food.

## Adelina Patti

Pupils will have the opportunity to find out about the life of Adelina Patti, the highly acclaimed 19th century opera singer who lived locally at Craig-Y-Nos Castle, South-West of Brecknockshire. There are many interesting Adelina related artefacts for the pupils to see in our Brycheiniog Gallery and they can hear a recording of her singing. There are also other Ystradgynlais-linked displays to see.

## Llan-gors Log Boat

Pupils can learn all about the 'crannog' on Llan-gors Lake near Brecon. Who might have lived on this artificial island? They can discover some of the treasures excavated from the site that was inhabited during the 9th and 10th Centuries AD, this includes a log boat recovered from the lake bed in 1925.

## The Monmouthshire & Brecon Canal

An illustrated talk is offered on the history of the Monmouthshire & Brecon Canal, which can include a walk & talk along the Canal. Summer Term workshops in partnership with The Canal & River Trust are also available.



## Welsh Lovespoons Workshop

Pupils can learn all about the tradition of Welsh Lovespoons and see a large range of crafted artefacts in our craft gallery. After learning about the different carved symbols, the pupils can have a go at designing their own lovespoon.

## Changes in Brecon, Town Trail

This is a free resource using packs of old photographs of Brecon. Designed to be used on a walk around the town to see how it has changed over the last 100-150 years.



## Loan of Resources

We have Victorian, Roman and Tudor loan boxes, which can be borrowed by schools at a cost of £10 if collected/returned or £20 if delivered/collected by y Gaer staff.

## Library Visits

The library offers a range of additional activities for all ages, including the opportunity for a class story-time, Lego Club or Coding session. These relaxed activities offer a warm welcome to the wide range of events happening at y Gaer and give the opportunity for pupils to explore what their library and museum have to offer them and their families.

## Fees

For all outreach visits, there is a standard charge of £65 per half day, for the first booking by a school in a financial year; for second and subsequent bookings by the same school in the same financial year, there is a charge of £55 per half day.

Group visits to y Gaer will be charged at £45 per half day.

An additional small charge per head (£0.50-£2.50) for craft materials is also made where applicable and if required this will be discussed at the time of booking.

Workshops can be assisted by a Welsh speaking volunteer on request and all powerpoint text and worksheets are bilingual.

## Risk Assessment

All our activities are risk-assessed. Please contact the Education Officer for a copy of the relevant risk assessment form if required.



## Facilities

- **Bus drop off/collection point directly outside the main doors on Glamorgan Street.**
- **Changing Places Room.**
- **Lunch area and gardens.**
- **All spaces are fully accessible for wheelchair users, apart from the Shire Hall Cells.**

## How to make a booking

To make a booking/discuss your requirements, please contact the Education and Access Officer, **Martine Woodcock** directly on **01874 614098** or **01874 623346.** Alternatively, you can email your enquiry to **martine.woodcock@powys.gov.uk**

y Gaer
Amgueddfa, Oriel Gelf & Llyfrgell
Museum, Art Gallery & Library

y Gaer

Amgueddfa, Oriel Gelf & Llyfrgell
Museum, Art Gallery & Library




# GWASANAETH ADDYSG y Gaer

Powys

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

Datblygiad cyffrous sy'n ysbrydoli **yw'r Gaer**. Mae'n cyfuno'r amgueddfa a'r oriel gelf ar eu newydd wedd a llyfrgell newydd i'r dref sy'n barod ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Lleolir yr amgueddfa o fewn Neuadd Sirol Frycheiniog gynt – adeilad rhestredig Gradd II*. Mae'r adeilad yn cynnwys Ystafell y Brawdlysoedd wedi'i hadnewyddu, ystafell ddosbarth o oes Fictoria, oriel grefftau, oriel gelf a lle ar gyfer arddangosfeydd dros dro. Hefyd mae dwy oriel hanes cymdeithasol sy'n llawn o hanes Sir Frycheiniog. Mae'r llyfrgell newydd yn cynnwys lle llyfrgell plant penodedig ac Ystafell Ddysgu Creadigol sydd hefyd yn cael ei defnyddio fel lle i ysgolion gael cinio pecyn.



P'un a ydych yn cynllunio ymweliad dosbarth â'r Gaer neu i'r Swyddog Addysg ymweld â'ch ysgol, ein nod yw cysylltu ein gwersi â Chwricwlwm Cenedlaethol Cymru. Yn ogystal, ry'n ni am blethu ein sesiynau â hanes yr ardal leol lle bo hynny'n briodol a phosibl. Ry'n ni'n cyflwyno'r gweithdai mewn ffyrdd amrywiol ac yn cynnwys gweithgareddau ymarferol sy'n ysgogi plant i feddwl a darganfod pethau drostyn nhw eu hunain. Mae sesiynau ar gael trwy gydol y flwyddyn ac maent yn seiliedig ar yr adnoddau a'r arteffactau yma yn y Gaer. Os oes thema benodol nad ydym wedi rhoi sylw iddi, gofynnwch ac efallai y bydd modd i ni lunio rhywbeth i fodloni'ch gofynion. Ry'n ni'n cynllunio sesiynau ar gyfer hanner diwrnod a gallwn eu haddasu ar gyfer disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4.

Hefyd ry'n ni'n cynnig gweithdai ychwanegol sy'n gysylltiedig ag arddangosfeydd dros dro, gwyliau a digwyddiadau eraill yn Aberhonddu. Ry'n ni'n cynnal y rhain ar y cyd â sefydliadau eraill, weithiau mewn lleoedd allanol ac yn eu hysbysebu ar wahân.

# Gweithdai **Addysg**

## Y Fictoriaid a Bywyd yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg

Mae set o wisgoedd Fictoriaidd ar gael i blant eu gwisgo mewn unrhyw un o'r sesiynau ar y rhestr.

## Dyddiau Golchi Oes Fictoria

Gweithdy poblogaidd yw hwn lle bydd disgyblion yn cael blas ymarferol ar drin gweithiau llaw go iawn a rhai copi megis twb golchi a byrddau sgwrio. Mae'r sesiwn hon hefyd yn addas i waith ar ddŵr neu gartrefi'r oes a fu.

## Teganau a Gemau Oes Fictoria

Gweithdy difyr lle mae plant yn dysgu sut mae teganau wedi newid dros amser. Bydd gan ddisgyblion gyfle i wneud eu teganau eu hunain a chwarae chwaraeon parlwr Fictoraidd.

## Cartrefi Oes Fictoria

Gan ddefnyddio casgliadau o weithiau llaw cartref go iawn a rhai copi, bydd disgyblion yn cael cyfle i weld sut y buodd pobl yn llwyddo i gadw'r tŷ heb gymorth trydan. Hefyd mae gweithdy gwneud carthennau o hen ddefnyddiau dros ben ar gael.

## Dyddiau Ysgol Oes Fictoria

Bydd disgyblion yn cael cyfle i ail-greu diwrnod ysgol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ein Hystafell Ysgol Fictoriaidd. Mae ysgrifennu copor-plêt, a phrofi cosbau wrth athro llym oes Fictoria yn rhan o'r hwyl chwarae rôl addysgol.





## Trafnidiaeth y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg

Trwy'r gweithdy hwn bydd disgyblion yn gallu dysgu am gludiant y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar y ffordd, y rheilffordd a'r dŵr, a sut mae'n cymharu â systemau trafnidiaeth heddiw.

## Ar Lan y môr yn Oes Fictoria

Yn y sesiwn hon ry'n ni'n defnyddio pethau glan y môr go iawn o oes Fictoria. Trwy hwn bydd plant yn cael cyfle i ysgrifennu cerdyn post mewn arddull Fictoraidd, gwneud pyped llaw a chael blas ar theatr Pwnsh a Jwdi.

## Cyfraith a Threfn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg

Bydd disgyblion yn dysgu am Frawdlys gwreiddiol Aberhonddu, sydd wedi'i leoli y tu fewn i'r Gaer. Mae'r Ystafell Lys wedi cael ei hadnewyddu i'w mawredd gwreiddiol. Gall disgyblion brofi ei chellau ac ail-greu achosion troseddau lleol go iawn o'r oes. Hefyd cânt drin a thrafod arteffactau cyfraith a threfn o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

## Byd Amaeth y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg

Bydd disgyblion yn cael cyfle i weld sut mae byd amaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru wedi esblygu i'r diwydiant ffermio mecanyddol a welir heddiw. Mae Oriel Frycheiniog yn arddangos casgliad hynod o wrthrychau ffermio sy'n amrywio o dalpiau menyn i offer gwyntyllu â llaw. Hefyd gallwn ddysgu hanes 'Pentrefi Coll Epynt'.

## Hanes Tommy Jones

Gan ddefnyddio ffilm a ffotograffau a dynnwyd yn lleol, adroddir hanes bachgen bach Tommy Jones a aeth ar goll ar Fannau Brycheiniog ar 4 Awst 1900. Gall disgyblion weld arteffactau o'r adeg yn Oriel Frycheiniog. Mae hwn yn weithdy cynnal dadl effeithiol – Beth ddigwyddodd i Tommy mewn gwirionedd?

## Gweithdy'r Celtiaid

Gan ddefnyddio gweithiau llaw copi a stori teithio mewn amser, caiff plant ddarlun cyffredinol o fywyd yn oes y Celtiaid. Mae gweithgareddau dilynol yn cynnwys gwneud potiau clai a gwehyddu basgedi.

## Y Rhufeiniaid

Bydd disgyblion yn cael cyfle i weld sut ry'n ni'n dysgu am y gorffennol trwy graffu ar yr hyn mae pobl yn ei adael ar ôl. Ry'n ni'n defnyddio ein casgliad o weithiau llaw Rhufeinig ac arteffactau copi i ymchwilio i fywyd yn oes y Rhufeiniaid, gan gynnwys bywyd fel Milwr Rhufeinig a Bwyd y Rhufeiniaid.

## Adelina Patti

Bydd gan ddisgyblion gyfle i ymchwilio i fywyd Adelina Patti, y gantores opera uchel ei bri o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a fuodd yn byw yn lleol yng Nghastell Craig-y-Nos yn ne orllewin Sir Frycheiniog. Mae gennym lawer o arteffactau diddorol sy'n perthyn i hanes a bywyd Adelina i ddisgyblion weld yn Oriel Sir Frycheiniog. Gallan nhw glywed recordiad ohoni'n canu. Hefyd mae arddangosfeydd sy'n gysylltiedig ag Ystradgynlais i'w gweld.

## Cwch Pren Llangors

Gall disgyblion ddysgu am y 'crannog' ar Lyn Syfaddan ger Aberhonddu. Pwy oedd yn byw ar yr ynys wneud hon? Gall plant ddarganfod y trysorau a gloddiwyd o'r safle lle bu pobl yn byw yn y nawfed a'r ddegfed ganrif. Mae hyn yn cynnwys cwch pren a ddarganfuwyd ar waelod y llyn ym 1925.

## Camlas Mynwy a Brycheiniog

Ry'n ni'n cynnig sgwrs â darluniau am hanes Camlas Mynwy a Brycheiniog a all cynnwys taith gerdded addysgol ar hyd y Camlas. Hefyd mae gweithdai mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Camlas ac Afonydd ar gael yn Nhymor yr Haf.



## Gweithdy Llwy Garu

Mae disgyblion yn dysgu am draddodiad y Llwy Garu yng Nghymru a gweld amrywiaeth eang o weithiau llaw yn ein horiel grefftau. Ar ôl dysgu am y gwahanol symbolau y buodd pobl yn eu cerflunio gall y disgyblion roi cynnig ar lunio eu llwy garu eu hunain.

## Taith o amgylch y Dref - Newidiadau yn Aberhonddu

Adnodd am ddim yw hwn sy'n defnyddio pecynnau o hen ffotograffau o Aberhonddu. Ry'n ni wedi cynllunio'r daith fel y gall plant weld sut mae'r dref wedi newid dros y 100-150 mlynedd diwethaf.



## Rhoi Adnoddau ar Fenthyg

Mae gennym flychau o oes y Fictoriaid, y Rhufeiniaid, a'r Tuduriaid y gall ysgolion eu benthyca am £10 os yw'r ysgol yn eu casglu a'u dychwelyd, neu ugain punt os bydd staff y Gaer yn eu danfon atoch a'u casglu.

## Ymweliadau Llyfrgell

Mae'r llyfrgell yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer pob oedran, gan gynnwys cyfle am amser stori dosbarth, Clwb Lego neu sesiwn Codio. Mae'r gweithgareddau hamddenol yma'n rhoi blas ar y digwyddiadau amrywiol sy'n digwydd yn y Gaer. Maent hefyd yn rhoi cyfle i ddisgyblion ymchwilio i'r cyfoeth mae eu llyfrgell a'u hamgueddfa leol yn ei gynnig iddyn nhw.

## Costau

Mae pob ymweliad â'r Gaer yn costio £65 am hanner diwrnod y tro cyntaf mae ysgol yn cadw lle mewn blwyddyn ariannol. Bydd yn costio £55 am hanner diwrnod am yr ail sesiwn neu sesiwn ddilynol mae'r un ysgol yn ei harchebu yn yr un flwyddyn ariannol.

Mae ymweliad grŵp yn costio £45 am hanner diwrnod.

Rydym hefyd yn codi tâl bach am adnoddau crefftau sy'n amrywio o hanner can ceiniog i £2.50 lle bo'n hynny'n berthnasol. Gellir trafod hwn wrth i chi gadw lle.

Mae siaradwyr Cymraeg ar gael i gynorthwyo gyda gweithdai ar eich cais ac mae ein holl ddeunyddiau PowerPoint a'n taflenni gwaith yn ddwyieithog.

## Asesiadau Risg

Ry'n ni'n cynnal asesiadau risg ar bob un o'n gweithgareddau. Cysylltwch â'r Swyddog Addysg am gopi o'r ffurflen asesu risg perthnasol fel y bo'n ofynnol.



## Cyfleusterau

- **Mae'r man gollwng a chasglu ar gyfer bysiau y tu allan i brif ddrysau'r Gaer ar Heol Morgannwg.**
- **Ystafell Newid.**
- **Lle i gael cinio a gerddi.**
- **Mae pobman o fewn cyrraedd hwylus i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, ar wahân i gelloedd y Neuadd Sirol.**

## Sut i gadw lle

Cysylltwch â'r Swyddog Addysg a Mynediad, **Martine Woodcock** i gadw lle neu i drafod eich gofynion. Gallwch ei ffonio ar **01874 614098** neu **01874 623346**. Fel arall mae croeso i chi e-bostio **martine.woodcock@powys.gov.uk**

y Gaer

Amgueddfa, Oriel Gelf & Llyfrgell
Museum, Art Gallery & Library